# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DDYDD MAWRTH, 4 MEHEFIN 2019 AM 5.30PM

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Simmonds – Maer
Y Cynghorydd C. Andrews – Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, C. Cuss, M. Davies, D.T. Davies, K. Dawson, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Hussey, V. James, M. James, L. Jeremiah, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, G. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L.G. Whittle, T. Williams, B. Zaplatynski.

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lucas (Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgorau).

**CROESO – Y CYNGHORYDD DIANNE PRICE**

Ar ran y Cyngor, croesawodd y Maer y Cynghorydd Dianne Price yn ôl i'w chyfarfod cyntaf ers ei salwch diweddar, a dymunodd wellhad parhaus a llawn iddi. Diolchodd y Cynghorydd Price i'r Aelodau am eu holl gefnogaeth a'u dymuniadau da; diolchodd hefyd i'r Cyngor am gefnogi ei chais am estyniad i'r rheol chwe mis a nododd yn arbennig ei gwerthfawrogiad am ei cherdyn gan Aelodau Plaid Cymru a'r llythyr gan y Prif Weithredwr Dros Dro.

**TREFNIADAU PLEIDLEISIO, FFILMIO A GWEDDARLLEDU**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd yn fyw ac mewn archif drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, S. Cook, D. Cushion, W. David, N. Dix, A. Gair, J. Gale, A. Higgs, G. Johnston, P. Marsden, G. Oliver, B. Owen, J. Roberts, J. Scriven ac W. Williams a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)

## 2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Amlinellodd y Maer pa ddigwyddiadau yr oedd ef a'r Dirprwy Faer wedi ymgymryd â nhw ers iddo gael ei ethol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor, a chyfeiriodd yr Aelodau at y rhestr o ddigwyddiadau a oedd wedi'i chynnwys o dan Eitem Rhif 2 yn y pecyn agenda. Eglurodd ei fwriad i gynnwys rhestr o'r fath ar gyfer yr holl gyfarfodydd arfaethedig, ac roedd yn gobeithio y byddai Cynghorwyr yn eu gweld yn ddefnyddiol.

## 3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Cyflwynodd y Cynghorydd G. Kirby ddeiseb ar ran y Cynghorydd M. Adams yn galw am adolygiad o'r llinellau melyn dwbl ar Heol Penmaen, Pontllan-fraith.

## 4. CYFLWYNO DYFARNIADAU

Dyfarniadau Llywodraethu IASME a Hanfodion Seiber a Mwy

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi llwyddo i gyflawni'r ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy a Dyfarniad Aur ar gyfer safon Llywodraethu IASME sy'n ymwneud â Llywodraethu a GDPR.

Cynghorwyd y Cyngor fod cyrraedd y safon hon yn ymdrech tîm gwirioneddol gan bob gwasanaeth o dan arweiniad y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol. Estynnodd yr Aelod Cabinet groeso i Liz Lucas, Joanne Jones, Wesley Colyer, Carl Evans, Bev Griffiths, Neil Rich, Wayne Turner, Rachel Hawker a Helen Hotchkiss a gofynnodd iddynt ddod ymlaen er mwyn i'r Cyngor gydnabod eu dyfarniadau.

Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Rhanbarthol LABC

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd fod prosiect gan Dîm Rheoli Adeiladu'r Cyngor, drwy eu perthynas waith ragorol â thrigolion a chwmnïau adeiladu, wedi cael eu cydnabod gan adrannau Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (‘LABC’) drwy eu Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Rhanbarthol. Estynnodd yr Aelod Cabinet groeso i Jason Lear (Tîm Rheoli Adeiladu), Gary Cosgrove (M & J Cosgrove), Jatinder Khehra (Redwood Court), Steve Collins (Steve Collins Builders and Shop Fitters), Jamie Morris, Adam Morris a Tom Morris (Morris Properties) a gofynnodd iddynt ddod ymlaen fel y gallai'r Cyngor gydnabod eu dyfarniadau.

Staff Trecelyn

Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Gymdogaeth gydweithwyr o Ganolfan Hamdden Trecelyn, a achubodd fywyd rhywun drwy feddwl yn gyflym ac oherwydd bod diffibriliwr ar gael. Ar ôl iddynt glywed bod dyn a oedd yn loncian ger y ganolfan hamdden wedi dioddef ataliad y galon, bu Georgia a Jamie yn rhoi triniaeth achub bywyd iddo nes i'r gwasanaethau brys gyrraedd. Diolchodd yr Aelod Cabinet i bawb a oedd yn rhan o'r digwyddiad hefyd, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a oedd gyntaf i gyrraedd y dyn, parafeddygon a swyddogion yr heddlu a fu yno, a chadarnhaodd fod y dyn wedi cael ei ryddhau o'r ysbyty erbyn hyn a'i fod yn gwella. Gofynnodd yr Aelod Cabinet i Georgia Haines a Jamie Evans ddod ymlaen fel y gallai'r Cyngor gydnabod eu hymdrechion sylweddol.

5. **DATGANIADAU O FUDDIANT**

Cafwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorydd John Taylor, Mrs C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) a Mr M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) yn eitem 12 ar yr Agenda – Trefniadau Contract ar gyfer y Prif Weithredwr Dros Dro. Mae'r manylion wedi'u cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

6. **CYNGOR – 16 Ebrill 2019**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2019 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

7. **CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR – 9 MAI 2019**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

8. **DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(2)**

At Arweinydd y Cyngor gan y Cynghorydd Adrian Hussey:

A all yr Arweinydd gynnig y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflwyno cynllun datblygu strategol a sut y gall hyn a'r Cynllun Datblygu Lleol ‘cyffyrddiad ysgafn’ newydd cysylltiedig helpu i wella ein perfformiad gwerth ychwanegol gros?

Ymateb gan yr Arweinydd
Yn dilyn gwaith helaeth gan Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru a Chabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cyrhaeddwyd cytundeb mewn egwyddor i fwrw ymlaen â Chynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn nigwyddiad Briffio Rhanbarthol y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2019.

Bydd adroddiad, a fydd wedyn yn cael ei anfon at bob un o'r 10 Cyngor i gael caniatâd i fwrw ymlaen yn ffurfiol â'r Cynllun Datblygu Strategol, yn cael ei ystyried gan Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 10 Mehefin 2019. Os bydd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cytuno ar yr adroddiad, bwriedir i bob un o'r 10 Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno'r adroddiad i'w Cynghorau perthnasol, gan ofyn am gytundeb i gychwyn y Cynllun Datblygu Strategol ar ôl hynny.

Os bydd pob un o'r 10 awdurdod yn cytuno i fwrw ymlaen, yna bydd mynegiant o ddiddordeb i ddechrau gweithio ar y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dyma'r cam cyntaf yn y broses o ddechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol.

Mae'r Cynllun Datblygu Strategol yn ddogfen polisi defnydd tir statudol a fydd, pan gaiff ei mabwysiadu, yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer cyflawni amcanion Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Un o gonglfeini dyheadau'r Cytundeb Dinesig yw gwireddu twf economaidd sylweddol, drwy adeiladu ar fanteision a chyfleoedd cystadleuol, a thargedu sectorau cyflogaeth strategol. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn darparu'r mynegiant gofodol o ddefnydd tir ar Gynllun Economaidd a Diwydiannol y rhanbarth i gyflawni'r uchelgais twf rhanbarthol a fydd yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn gwerth ychwanegol gros.

Bydd Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol Llai, sef y term am Gynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei baratoi pan fydd Cynllun Datblygu Strategol a fabwysiadwyd yn ei

le, yn darparu'r mynegiant lleol ar bolisi defnydd tir ar gyfer cyflawni strategaeth y Cynllun Datblygu Strategol ar lefel awdurdod lleol.

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Datblygu Lleol/Cynllun Datblygu Lleol Llai gyda'i gilydd yn darparu sylfaen polisi defnydd tir statudol ar gyfer cyflawni amcanion twf economaidd y Cytundeb Dinesig a fydd yn gwireddu'r cynnydd o 5% yn y gwerth ychwanegol gros cyffredinol sy'n ofynnol yn ôl y Cytundeb Dinesig.

Mae arwydd hefyd fod cystadleurwydd economaidd Caerffili ar gynnydd. Mae rhifyn 2019 o Fynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig (UKCI) yn darparu dull o gymharu ac archwilio cystadleurwydd newidiol Caerffili o gymharu ag Ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill Cymru. Dangosodd y Mynegai mai Blaenau Gwent yw'r ardal leiaf cystadleuol yn y Deyrnas Unedig o hyd (safle 379). Ar nodyn cadarnhaol, mae Caerffili wedi codi o safle 376 yn 2015 i safle 369 yn 2019, gan leihau nifer yr ardaloedd o Gymru sydd ymhlith y 10 ardal leiaf cystadleuol yn y Deyrnas Unedig.

## 9. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4)

**At yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd gan y Cynghorydd Carl Thomas**:

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am sefyllfa ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch prisio sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau ansawdd aer Hafodyrynys?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet
Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Ansawdd Aer sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal astudiaeth ddichonoldeb i benderfynu ar y dewis a ffefrir. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfedd â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd o ran gwerth terfyn y nitrogen deuocsid yn Hafodyrynys yn yr 'amser byrraf posib'.

Nododd y Cynllun Terfynol drafft y byddai dymchwel yr eiddo ar ochr ddeheuol yr A472 yn sicrhau cydymffurfedd yn yr amser byrraf posib erbyn 2023. Fodd bynnag, mae gwaith modelu o ran y dewis 'Gwneud y Lleiafswm' yn rhagfynegi y byddai modd cydymffurfio o ran ansawdd aer erbyn 2025. Yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2019, mynegodd y Cabinet bryderon cryf am y posibilrwydd y gallai preswylwyr gael eu gwthio i galedi ariannol drwy unrhyw broses prynu gorfodol a phenderfynodd gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y dewis 'Gwneud y Lleiafswm'; mae'r ymgynghoriad hwnnw'n cau yr wythnos nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ers hynny y bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i brynu a dymchwel yr eiddo, pe bai angen gwneud hynny, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio gwerth eiddo tebyg newydd yn hytrach na gwerth y tŷ sy'n cael ei ddymchwel ar y farchnad. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r pryder a fynegwyd yn flaenorol gan y Cabinet na ddylai preswylwyr gael eu rhoi mewn caledi ariannol.

Mae hyn yn newid cadarnhaol mewn amgylchiadau ac mae Swyddogion wrthi'n datblygu dull prisio i'w gynnwys mewn adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 25 Mehefin er mwyn cael penderfyniad.

**At y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros yr Economi, Isadeiledd, Cynaliadwyedd a Llesiant a Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan y Cynghorydd Andrew Whitcombe:**

A all y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet rannu â mi pa gynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at fod yn Gyngor a Bwrdeistref Sirol 'wyrddach'?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet
Mae gan Gyngor Caerffili hanes cadarnhaol iawn o gyflwyno a gweithredu mesurau i leihau'r defnydd o ynni ac mae eisoes wedi cyflwyno Strategaeth Lleihau Carbon sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn ynni Ffotofoltäig (PV) ar 64 o gynlluniau yn ein hysgolion. Ar hyn o bryd rydym yn cyflwyno rhaglen i drosi holl oleuadau stryd y fwrdeistref sirol i LED. Mae lleihau'r defnydd o ynni yn un o amcanion allweddol y Cyngor. Bellach, mae llawer o stoc tai'r Cyngor wedi cael deunydd inswleiddio i'w waliau allanol, boeleri cyddwyso mwy effeithlon, deunydd inswleiddio atig a gwydr dwbl.

Gwnaed cynnydd o ran lleihau'r defnydd o drydan mewn llawer o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor. Er enghraifft, mae gan Dŷ Penallta 108 o baneli ffotofoltäig ar ei do. Ynghyd â newidiadau i'r rheolaethau gwresogi ac oeri a'r goleuadau sy'n cael eu disodli gan LED, mae Tŷ Penallta yn dod yn fwy cynaliadwy ac yn rhatach i'w redeg.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Cyngor yn datblygu Cynllun Ynni i barhau â gwaith da'r Strategaeth Lleihau Carbon bresennol. Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r Hysbysiad o Gynnig Newid yn yr Hinsawdd heno, byddwn yn ymrwymo i wneud Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030. Mae'r cynnig hwn eisoes wedi'i lofnodi gan yr holl Gabinet ac Arweinwyr pob grŵp gwleidyddol. Mae nifer o brosiectau y gall y Cyngor eu hymgorffori yn y Cynllun Ynni hwn sy'n datblygu er mwyn cyrraedd y targed ac mae'r cyfleoedd hyn wedi'u hamlinellu mewn adroddiad y bwriedir ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a Thai ar 11 Mehefin.

Mae'r meysydd cyfle y mae'r Cyngor am eu hystyried yn cynnwys defnyddio asedau tir ar gyfer ffermydd solar, tyrbinau gwynt neu blannu coed a defnyddio gwres o dreulydd anerobig lleol i leihau ein defnydd o garbon.

Yn ddiweddar, cymeradwyodd yr Awdurdod Strategaeth Cerbydau Trydan sydd â'r nod o gyflwyno isadeiledd cerbydau trydan ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym hefyd yn arwain ar astudiaeth ddichonoldeb i bennu'r safleoedd mwyaf addas ar gyfer gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym mhum awdurdod lleol Gwent. Bydd yr astudiaeth hon yn sail i gais am arian gan y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel. Mae gwaith dichonoldeb yn cael ei gyflawni i osod pwyntiau gwefru ar Gampws Tredomen ar gyfer cerbydau fflyd ac ymwelwyr. Mae hyn yn adeiladu ar y newyddion diweddar y bydd y cwmni Stagecoach yn cyflwyno un o fuddsoddiadau unigol mwyaf Ewrop mewn bysiau trydan yma yng Nghaerffili, ar ôl sicrhau £2.9 miliwn mewn arian grant gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Daw hyn ar ben y buddsoddiad o £740+ miliwn ym Metro'r Cymoedd. Bydd hyn yn ysgogi newid yn agwedd pobl tuag at deithio.

Mae'r Cyngor yn datblygu cynllun gweithio hyblyg a fydd yn lleihau'r angen i staff deithio'n ddiangen ac a allai leihau'r angen am ofod swyddfa, gan arwain unwaith yn rhagor at leihau'r defnydd o ynni.

Mae llawer o gyfleoedd yn bodoli i ddefnyddio tai fel ffordd o greu awdurdod gwyrddach. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gweithredol i ddarparu cynlluniau tai arloesol, fel cynllun Pentref Siartwyr y cwmni Pobl ym Mhontllan-fraith. Byddwn yn parhau i ymdrechu gyda'n stoc tai Cyngor ein hunain i leihau tlodi tanwydd, gwella inswleiddio ac ymchwilio i ffyrdd o gynhyrchu ynni glân. Ar ôl cwblhau gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2020, bydd adnoddau'n cael eu targedu ar yr agenda ynni. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi dechrau deialog gyda Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gallai'r awdurdod weithredu fel awdurdod peilot ar unrhyw fentrau newydd.

Rydym yn brandio ein hunain fel Cyngor "Gwyrdd", ond nawr mae angen i ni gyflymu'r broses o leihau ein hôl troed carbon ymhellach. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i ddatganiad o fwriad diweddar Llywodraeth Cymru sy'n cyfeirio at ddatgarboneiddio, o'r enw 'Ffyniant i

Bawb: Cymru Carbon Isel', a hefyd i ddylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw datblygu strategaeth ynni drosfwaol sy'n adlewyrchu'r uchelgais hwn ac sy'n amlinellu trywydd ar gyfer dangos sut y gallwn gyflawni o ran bod yn awdurdod lleol carbon niwtral net erbyn 2030.

## 10. HYSBYSIAD O GYNNIG – NEWID YN YR HINSAWDD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r hysbysiad o gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd S. Morgan ac a gefnogwyd gan y Cynghorwyr D.V. Poole, B. Jones, C. Cuss, C. Gordon, L. Phipps, N. George, P. Marsden, E. Stenner, C. Mann a K. Etheridge. Nodwyd bod y cynnig wedi'i ystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2019 a'i fod wedi cael ei gefnogi gan ei Aelodau.

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan, yn ei hysbysiad o gynnig, i'r Cyngor:-

(i) Ddatgan Argyfwng Hinsawdd;
(ii) Ymrwymo i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030;
(iii) Datblygu cynllun ynni clir, o fewn 12 mis, ar gyfer gweithio tuag at fod yn Gyngor di-garbon net;
(iv) Gofyn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig alw ar Arweinwyr y byd i gydnabod y dystiolaeth wyddonol aruthrol bod Newid yn yr Hinsawdd wedi cael ei achosi gan weithgarwch dynol;
(v) Galw ar Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig i ddarparu'r cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl lleihau carbon yn effeithiol a symud at ddyfodol sy'n llai dwys o ran adnoddau;
(vi) Galw ar Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd y wlad mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn adlewyrchu datgarboneiddio a meddylfryd uchelgeisiol a blaengar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn hytrach na dim ond mesur y defnydd o adnoddau a diwylliant prynu;
(vii) Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cyfleoedd i sicrhau arbedion carbon ac i fanteisio ar fuddion ehangach economi werdd;
(viii) Cydweithio ag arbenigwyr o'r sector preifat, yr ail sector a'r trydydd sector i ddatblygu atebion arloesol i fod yn ddi-garbon net.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r targedau uchelgeisiol a bennwyd yn yr hysbysiad o gynnig, ac roedden nhw'n gytûn, gan mai Newid yn yr Hinsawdd oedd yn peri'r bygythiad mwyaf i genedlaethau'r dyfodol, bod yn rhaid iddo fod yn flaenoriaeth. Cyfeiriodd un Aelod at y defnydd o baneli ffotofoltäig a'r angen i ddatblygu'r dechnoleg hon ymhellach. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon hefyd o ran yr angen i wella'r isadeiledd a'r costau cysylltiedig y byddai eu hangen i symud y prosiectau amrywiol yn eu blaen. Gofynnodd yr Aelod am ragor o wybodaeth am gerbydau trydan a thargedau i leihau allyriadau, a chytunwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu ar ôl y cyfarfod.

Gofynnwyd am eglurhad o ran cynnyrch domestig gros fel y nodir ym mhwynt 6 y cynnig a holwyd a oedd hwn yn ddangosydd cywir o ran effaith y newid yn yr hinsawdd. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cynnyrch domestig gros fel dangosydd ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn fesurydd rhy gul gan fod ei feini prawf yn canolbwyntio ar gynhyrchiant ac allbwn ac nad oedd yn ystyried sut y cyflawnwyd y gwaith cynhyrchu na lles y cyhoedd. Nid yw cynnyrch domestig gros yn ystyried effaith gwastraff plastig ar yr amgylchedd, dim ond bod cynyddu'r gwaith o gynhyrchu plastig yn arwain at gynnydd o ran cynnyrch domestig gros. Dywedodd fod Mesurydd Cyfoeth yn rhoi darlun mwy cyflawn gan nad oedd ei ffocws yn un ariannol yn bennaf ond ei fod yn fwy cyfannol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gwaith sy'n cael ei wneud gan blant mewn ysgolion lleol o ran y newid yn yr hinsawdd a bod y plant yn benderfynol na ddylai gweithredoedd cenedlaethau blaenorol ddifetha'u hamgylchedd yn y dyfodol.

Mynegodd Aelod bryder nad oedd dadansoddiad o gostau o ran bod yn garbon niwtral wedi'i ystyried. Cyfeiriwyd at blannu coed ac ar ba rannau o dir y gellid eu cynnwys, cyfyngiadau cyllidebol, diffyg seilwaith neu fuddsoddiad angenrheidiol i alluogi cartrefi i weithredu ar ynni adnewyddadwy ac yn y blaen. Cwestiynodd yr Aelod yr angen i ddatgan Argyfwng Hinsawdd pan na ellir gweithredu newid go iawn, a gofynnodd a fyddai'n well i'r Cyngor fuddsoddi mewn meysydd eraill fel cyrhaeddiad addysgol.

Anghytunodd yr Aelodau â'r cynnig i 'wneud dim' gan gydnabod y byddai costau'n gysylltiedig â'r cynnig, ond y byddai'n fwy costus i genedlaethau'r dyfodol beidio â gwneud dim. Pwysleisiwyd pwysigrwydd archwilio pob dull posibl, gan gynnwys gweithio'n wahanol er mwyn diogelu dyfodol ein plant. Yna, cyfeiriwyd at yr angen i osgoi cynhyrchu carbon yn y tarddle a chymryd safbwynt cyfrifol wrth leihau allyriadau.

Cytunwyd y byddai rhagor o wybodaeth ac ymatebion i gwestiynau a godwyd gan yr Aelodau yn ystod y ddadl yn cael eu dosbarthu'n annibynnol i'r rhai dan sylw ar ôl y cyfarfod.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr hysbysiad o gynnig yn cael ei gefnogi a thrwy'r system bleidleisio electronig a nodai fod 54 o blaid, 1 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn:-

(i) Datgan Argyfwng Hinsawdd;

(ii) Ymrwymo i wneud Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030;

(iii) Datblygu cynllun ynni clir, o fewn 12 mis, ar gyfer gweithio tuag at fod yn Gyngor di-garbon net;

(iv) Gofyn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig alw ar Arweinwyr y byd i gydnabod y dystiolaeth wyddonol aruthrol bod Newid yn yr Hinsawdd wedi cael ei achosi gan weithgarwch dynol;

(v) Galw ar Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig i ddarparu'r cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl lleihau carbon yn effeithiol a symud at ddyfodol sy'n llai dwys o ran adnoddau;

(vi) Galw ar Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd y wlad mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn adlewyrchu datgarboneiddio a meddylfryd uchelgeisiol a blaengar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn hytrach na dim ond mesur y defnydd o adnoddau a diwylliant prynu;

(vii) Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cyfleoedd i sicrhau arbedion carbon ac i fanteisio ar fuddion ehangach economi werdd;

(viii) Cydweithio ag arbenigwyr o'r sector preifat, yr ail sector a'r trydydd sector i ddatblygu atebion arloesol i fod yn ddi-garbon net.

## 11. YMATEB I ADOLYGIAD ETHOLIADOL CAERFFILI 2019

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn manylu ar ganlyniad Gweithgor yr Adolygiad Etholiadol a'r ymateb arfaethedig i adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol.

Cyfeiriodd Aelodau'r Gweithgor at yr heriau a wynebir wrth lunio'r cynigion i'w rhoi gerbron y Cyngor, ac roedden nhw'n cydnabod nad oedd yr ymateb a roddwyd yn berffaith ond ei fod yn cyflwyno'r ffordd orau ymlaen o dan yr amgylchiadau. Cwestiynwyd amseriad a pherthnasedd yr adolygiad o gofio'r gofynion a'r cyfrifoldebau cynyddol sy'n cael eu rhoi ar Aelodau Etholedig. Trafodwyd yr effaith y byddai lleihau nifer y Cynghorwyr yn ei chael ar gynrychiolaeth ddemocrataidd a chytunodd yr Aelodau, er nad oedd y cynigion oedd ger eu bron yn ddelfrydol o bell ffordd, eu bod yn well na bod y Comisiwn yn gwneud y penderfyniadau hynny.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad ynddo yn cael ei gefnogi a thrwy'r system bleidleisio electronig a nodai fod 47 o blaid, 2 yn erbyn a 5 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD anfon y dystiolaeth yn Atodiad 1 i adroddiad y Swyddog i'r Comisiwn fel ymateb swyddogol y Cyngor i'r broses ymgynghori ar yr adolygiad o'r trefniadau etholiadol yn y fwrdeistref sirol.

## 12. TREFNIADAU CONTRACT Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO

Datganodd y Cynghorydd J. Taylor fuddiant parhaus gan ei fod yn Aelod presennol o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ac, fel yr oedd wedi gwneud o'r blaen, gadawodd y Siambr cyn i'r mater gael ei drafod.

Datganodd Mrs C. Harrhy a Mr M.S. Williams fuddiannau gan fod yr adroddiad yn effeithio'n uniongyrchol ar eu swyddi dros dro presennol, a gadawodd y ddau y Siambr cyn i'r mater gael ei drafod.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn contract y Prif Weithredwr Dros Dro presennol tan 31 Mawrth 2020. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gofyniad statudol i gael Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ac y byddai'r ymestyniad arfaethedig yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â hyn. Byddai'r ymestyniad hefyd yn cynnig parhad i'r sefydliad. Nodwyd y byddai modd adolygu'r trefniadau contract dros dro yn gyflym ac y gellid ei derfynu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymestyn pe bai amgylchiadau'n newid.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Pobl fod yr adroddiad gan yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig wedi'i gyflwyno a bod cyfarfod o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn cael ei drefnu i ystyried yr adroddiad, yn unol â'r broses statudol y cytunwyd arni.

Gofynnwyd am eglurhad o baragraff 5.10 yn yr adroddiad ynghylch hysbysu Llywodraeth Cymru ac a gafwyd unrhyw ymateb a pham nad oedd swydd y Cyfarwyddwr Cymunedau Dros Dro wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi cael ei hysbysu yn ôl y gofyn, ond nad oedd wedi cael cais nac y byddai disgwyl iddi gynnig unrhyw sylw ar yr ymestyniad arfaethedig. Ni chafodd y swydd Cyfarwyddwr Cymunedau Dros Dro ei chynnwys gan fod y Cyngor wedi penderfynu'n flaenorol y byddai'r mater yn cael ei ddatrys drwy ddirprwyo pwerau i'r Prif Weithredwr Dros Dro drwy ymgynghori â'r Arweinydd a dau Ddirprwy Arweinydd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad ynddo yn cael ei gefnogi a thrwy'r system bleidleisio electronig a nodai fod 15 yn erbyn, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD ymestyn contract y Prif Weithredwr Dros Dro presennol tan 31 Mawrth 2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:45.

Wedi'u cymeradwyo fel cofnodion cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau i'w cytuno a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 23 Hydref 2019, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

__________________________

MAER